# Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

***Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl 2023/24***

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Ceir amrywiaeth o ffurfiau arni, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfod a llafur gorfodol a masnachu pobl. Mae pob un o'r rhain ag elfen gyffredin, sef un parti'n amddifadu unigolyn neu unigolion o'u rhyddid er mwyn camfanteisio arnynt er mantais bersonol neu fasnachol.
Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a hwn yw ein datganiad ar gaethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Gorffennaf 2024.

Mae Prifysgol Abertawe yn mynnu ar ymagwedd dim goddefgarwch at gaethwasiaeth fodern.

**Strwythur y Sefydliad**

Mae Prifysgol Abertawe'n sefydliad uchelgeisiol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, a chanddi fwy na 24,000 o fyfyrwyr a thros 4,000 o aelodau staff. Corff llywodraethu'r Brifysgol, y Cyngor, sydd â rheolaeth gyffredinol ar y Brifysgol a'i materion, ei dibenion a'i swyddogaethau. Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth sy'n gyfrifol yn weithredol am y Brifysgol, ac mae'n cynnwys yr Is-ganghellor, y Profost, y Dirprwy Is-gangellorion, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu a'r Prif Swyddog Ariannol. Mae'r corff hwn yn fforwm ar gyfer cynghori'r Is-ganghellor ac uwch-swyddogion eraill y Brifysgol ar faterion sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau penodol.

Gellir gweld datganiadau ariannol y Brifysgol yn https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/cyllid/ffurflenni-dogfennau/

**Cydweithredu**

Mae'r Brifysgol yn cydweithio â chonsortia prynu addysg uwch eraill a sefydliadau eraill ar brosesau asesu risg a diwydrwydd dyladwy i rannu arferion da ac osgoi dyblygu ymdrech i'r prifysgolion a'r cyflenwyr allanol. Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Gaffael Addysg Uwch (HEPA) a sefydliadau ar draws y sector, gan fod yn aelod o Grŵp Caffael Cyfrifol HEPA.

**Cadwyni Cyflenwi**

Mae gan Brifysgol Abertawe gadwyn gyflenwi fyd-eang, gan wario dros £170 miliwn yn flynyddol yn prynu amrywiaeth o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae dros 94% o gyflenwyr y Brifysgol yn y DU, ond rydym yn deall ac yn sylweddoli y gall y gadwyn gyflenwi ehangach fod wedi'i lledaenu'n fyd-eang ac felly mae'r risg o Gaethwasiaeth Fodern yn cynyddu. Bydd y Brifysgol yn parhau i ganolbwyntio ar fonitro ardaloedd a chyflenwyr mewn categorïau risg uchel er mwyn sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern yn y cadwyni cyflenwi strategol. Mae'r sectorau risg uchel ar gyfer caethwasiaeth fodern yn cynnwys cyflenwadau swyddfa, nwyddau traul labordai, offer TGCh a rhai gwasanaethau ystadau (rheoli cyfleusterau). Gan fod y mwyafrif o wariant a threfniadau cytundebu Prifysgol Abertawe ar gyfer y sectorau hyn drwy fframweithiau cenedlaethol neu gyflenwyr lleol, mae'r risg o dramgwyddau caethwasiaeth fodern yn y meysydd hyn yn isel. Mae contract newydd Prifysgol Abertawe ar gyfer Deunyddiau Hyrwyddo wedi cynnwys meini prawf sy'n gofyn i gyflenwyr gadarnhau manylion am gamau gweithredu i fonitro a rheoli'r risg o Gaethwasiaeth Fodern yn

eu cadwyn gyflenwi, gan osod disgwyliadau o'r cychwyn cyntaf a sicrhau bod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei gynnwys fel rhwymedigaeth gyfreithiol o dan gontract.

**Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi**

Mae'r Brifysgol wedi llofnodi Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, sy'n cefnogi dileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol i sicrhau bod gweithwyr ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi yn cael eu trin yn deg. www.youtube.com/watch?v=Dh7xovObIvU&feature=youtu.be

**Ein polisïau ar gaethwasiaeth a masnachu pobl**

Yn ystod y flwyddyn i fis Gorffennaf 2023, gweithredodd y Brifysgol mewn modd cyfrifol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i weithio tuag at sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn rhan o'n cadwyni cyflenwi neu unrhyw ran o'n busnes.
Gan ystyried y ddyletswydd i adrodd ar fesurau i sicrhau na cheir caethwasiaeth yn unrhyw ran o'n busnes na'n cadwyn gyflenwi, byddwn yn parhau i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau gweithle i asesu eu heffeithiolrwydd wrth nodi a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth fodern. Mae cyhoeddi'r datganiad hwn hefyd yn ofyniad yng Nghôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, yr ymrwymodd y Brifysgol i'w lofnodi ochr yn ochr â holl brifysgolion Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Mae Prifysgol Abertawe yn gweithio tuag at gyflawni ymrwymiadau'r Côd Ymarfer, sy'n cynnwys annog ein cyflenwyr i fabwysiadu'r Côd

**Prosesau diwydrwydd dyladwy ar gyfer caethwasiaeth a masnachu pobl**

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymo i ystyried prosesau diwydrwydd dyladwy yn ein busnes ac ym musnes ein cadwyn gyflenwi. Rydym yn rhoi systemau ar waith er mwyn nodi, asesu a monitro meysydd risg posib yn ein cadwyni cyflenwi er mwyn parhau i liniaru'r risgiau hynny.
Mae Prifysgol Abertawe'n aelod o'r Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru (HEPCW). Mae HEPCW yn cydweithio'n effeithiol â Chonsortia Pwrcasu Prifysgolion y DU. Mae'r rhaglen contractio ar y cyd yn darparu portffolio cydweithredol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau risg uchel, megis cyflenwadau swyddfa, nwyddau labordy, cyfarpar TGCh a rhai gwasanaethau ystadau (rheoli cyfleusterau).
Mae Prifysgol Abertawe'n cydweithio â HEPCW, ac â'r Consortia Pwrcasu Addysg Uwch, i nodi'r cyflenwyr yn y categorïau risg uchel hyn, mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl, ac mae wedi ymrwymo i Gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru.

Mae proses dendro'r Brifysgol yn sicrhau bod yr holl gyflenwyr yn deall eu rhwymedigaethau fel cyflenwr i brifysgol ac yn rhoi ymrwymiad i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn eu cadwyni cyflenwi. Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gydymffurfiaeth pob cyflenwr newydd â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, gan sicrhau bod yr holl sefydliadau masnachol perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) yn cydymffurfio â'r gofynion o ran adrodd. Mae'n ofynnol i bob cyflenwr (pan gaiff ei ddiffinio'n sefydliad masnachol yn adran 54 rhan 2(b) o'r Ddeddf) ddatgan ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion i adrodd yn flynyddol sy'n rhan o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a nodi cyfeiriad at ei ddatganiad ynghylch y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

**NETPositive Futures**

Drwy weithio gyda Chonsortiwm Prynu Addysg Uwch Cymru ehangach, mae'r Brifysgol wedi ymgysylltu â NETPositive Futures i ddarparu cronfa ddata ryngweithiol o gyflenwyr presennol er mwyn asesu eu cydymffurfiaeth â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Bydd y system yn:

- Darparu mecanwaith unigol i ymgysylltu â chyflenwyr sydd â chontract a rhai heb gontract ynghylch materion caethwasiaeth fodern
- Casglu data ynghylch pa rai o'n cyflenwyr sy'n ymwybodol o agweddau ar gaethwasiaeth fodern ac yn ymwneud â nhw.
- Darparu mecanwaith i gynnig cymorth, arweiniad neu hyfforddiant i'n sylfaen gyflenwi ac i rannu arferion gorau rhyngddynt
- Ein galluogi i olrhain y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan ein cadwyn gyflenwi wrth fynd i'r afael ag agweddau ar gaethwasiaeth fodern
- Rhoi mynediad i ni at yr wybodaeth hon mewn amser go iawn
- Ein galluogi i gynnwys caethwasiaeth fodern yn ein prosesau rheoli contract ar sail y cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd gan ein cyflenwyr

**Lliniaru risg drwy ofyn i gyflenwyr lynu wrth ein gwerthoedd**

Mae llawer o'n cyflenwyr yn y categorïau risg uwch hyn wedi ymrwymo i Gôd Sylfaen y Fenter Masnachu Moesegol ac mae Consortia Pwrcasu Prifysgolion y DU yn gweithio i ddarbwyllo gweddill y cyflenwyr yn y categorïau hyn i ymuno â nhw. Mae Côd Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol yn seiliedig ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac mae'n gôd ymarfer llafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n mynnu cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- Dewisir cyflogaeth yn wirfoddol
- Caiff rhyddid i ymgysylltu a'r hawl i gydfargeinio eu parchu
- Mae'r amodau gweithio'n ddiogel ac yn hylan
- Ni ddefnyddir llafur plant
- Telir cyflog byw
- Nid yw'r oriau gwaith yn ormodol
- Nid oes unrhyw wahaniaethu
- Darperir cyflogaeth reolaidd; a
- Ni chaniateir unrhyw driniaeth lem neu greulon.

Prifysgol Abertawe oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill statws Masnach Deg. Mae Adran Arlwyo ar y Campws y Brifysgol yn ymrwymo'n gryf i gynaliadwyedd, Masnach Deg a phrynu'n lleol. Mae Masnach Deg yn ymwneud â phrisiau gwell, amodau gwaith da, cynaliadwyedd lleol a thelerau masnach teg i ffermwyr a gweithwyr yn y byd datblygol. Yn ogystal, Prifysgol Abertawe oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i ymuno ag Electronics Watch. Mae Electronics Watch yn sefydliad monitro annibynnol sy'n helpu prynwyr y sector cyhoeddus i gydweithio er mwyn sicrhau parch at hawliau llafur a safonau diogelwch yn y ffatrïoedd sy'n cynhyrchu'r galedwedd TGCh maent yn ei phrynu. Drwy weithredu ar sail aelodaeth gyswllt, mae Electronics Watch yn galluogi prynwyr y sector cyhoeddus i rannu cost monitro cyflenwyr â'r rhwydwaith cyfan o aelodau cyswllt a chydlynu gweithgarwch y diwydiant. Felly, mae Prifysgol Abertawe'n cydweithio ag Electronics Watch i ddatblygu tryloywder yn ei chadwyn gyflenwi i gynnwys cyflenwyr haen is, er mwyn lliniaru'r risg o arferion cyflogaeth anfoesegol, er enghraifft, mwynau gwrthdaro a gyflenwir i weithgynhyrchwyr nwyddau electronig.

**Y Cyflog Byw Gwirioneddol**

Mae'r cyflog byw gwirioneddol yn cael ei gyfrifo'n annibynnol ar sail yr hyn y mae ei angen ar weithwyr a'u teuluoedd er mwyn byw, ac mae'n uwch na'r cyflog byw cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Mae cyflogwyr achrededig yn talu cyfradd y cyflog byw gwirioneddol, sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol, yn wirfoddol.
Aeth Prifysgol Abertawe ati o'i gwirfodd i gyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol i'w holl staff cyflogedig ym mis Ebrill 2019, er budd mwy na 1,000 o'i chyflogeion ar y cyflogau isaf. Ers hynny, mae wedi ennill ei hachrediad cyflog byw gwirioneddol gan y Living Wage Foundation (LWF) drwy dalu'r cyflog byw gwirioneddol i bob aelod o staff sydd wedi'i gyflogi'n uniongyrchol a hefyd y rhai sydd wedi cael eu his-gontractio.
Mae achrediad Abertawe gan yr LWF, a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2020, yn galluogi'r Brifysgol i hyrwyddo ac annog polisïau ac arferion sy'n rhan bwysig o helpu ei 4,000 o staff i fyw bywydau gwaith boddhaus a gwobrwyol. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2023, mae Prifysgol Abertawe wedi dyfarnu tri chontract â gwerth uchel ar gyfer rheoli cyfleusterau meddal, rheoli cyfleusterau caled ac arlwyo; mae pob un wedi cynnwys darpariaeth i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'r holl gyflogeion.
Mae cyflogwyr cyflog byw gwirioneddol achrededig yn dweud bod cael eu hachredu wedi helpu'r berthynas rhwng staff a'u rheolwyr, wedi arwain at gynnydd mewn cymhelliant a chyfraddau cadw staff, ac wedi helpu i hybu enw da eu sefydliad.

**Hyfforddiant**

I sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yng nghadwyni cyflenwi Prifysgol Abertawe ac yn y sefydliad ar y cyfan, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern.
Mae'r timau Caffael a Chynaliadwyedd yn gweithio'n agos i ddatblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth mewnol, gan ddefnyddio adnoddau perthnasol, ac i atgyfnerthu polisïau a gweithdrefnau mewnol yn unol â safonau ISO. Mae'r gweithgarwch codi ymwybyddiaeth hwn ar gyfer lefelau a rolau perthnasol yn y Brifysgol. Drwy nodi staff sy'n ymwneud â'r broses brynu, darperir hyfforddiant i gynorthwyo ymwybyddiaeth, ac i helpu i nodi risgiau yn y gadwyn gyflenwi y maent yn rhan ohoni. Ers y datganiad blaenorol ar gyfer 2022/23, mae Abertawe wedi ehangu'r modiwlau hyfforddiant y mae'n eu cynnig ym maes Caffael. Mae'r modiwlau hyn bellach yn ymdrin â Chaethwasiaeth Fodern, sy'n galluogi staff Prifysgol Abertawe i feithrin dealltwriaeth well o'r gofyniad i'r holl gyflenwyr gydymffurfio.

**Ein heffeithiolrwydd wrth rwystro caethwasiaeth a masnachu pobl**

Mae Prifysgol Abertawe wedi dechrau integreiddio Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn ein System Rheoli Amgylcheddol ISO14001 (2015) a'n Cofrestr Gyfreithiol. Bydd hyn yn:
- cynorthwyo wrth nodi a lliniaru effeithiau cysylltiedig a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ledled y Brifysgol ar gyfer rheoli perfformiad
- darparu sicrwydd a gaiff ei archwilio'n allanol
- darparu mecanwaith i godi ymwybyddiaeth drwy gymuned gyfan y Brifysgol
- ystyried cymalau cyfreithiol priodol mewn contractau er mwyn rheoli a monitro cyflenwyr yn fwy effeithiol.

**Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd)**

Mae gan y Brifysgol bolisi a gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Budd y Cyhoedd) ar waith er mwyn galluogi ei staff, ei myfyrwyr ac aelodau eraill o gymuned y Brifysgol i fynegi pryderon sydd er budd y cyhoedd, ynghylch honiadau o dwyll, camarfer, camymddwyn, ac ymddygiad amhriodol neu anfoesegol. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau'n sicrhau bod pryderon yn cael eu trin mewn modd cadarn a theg, ac nad yw aelodau sy'n codi pryderon o'r fath yn destun erledigaeth. Diwygiwyd y polisi ym mis Tachwedd 2021 ac yn ei gwmpas mae bellach

yn cynnwys darpariaeth i staff y Brifysgol fynegi pryderon ynghylch torri'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yng nghadwyn gyflenwi'r Brifysgol. Mae polisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol ar gael yma:
Chwythu'r Chwiban - Prifysgol Abertawe

**Ein Llywodraethu a'n Polisïau**

•Polisi Caffael Cynaliadwy a Moesegol
Mae'r polisi hwn wrth wraidd ein gweithgareddau caffael a chafodd ei ddatblygu ar y cyd gan y timau Caffael a Chyfrifoldeb Corfforaethol.

**Dyletswydd i Hysbysu**

O 1 Tachwedd 2015, mae gan awdurdodau cyhoeddus penodedig ddyletswydd i hysbysu'r Swyddfa Gartref am unrhyw unigolyn y maent yn dod ar ei draws yng Nghymru a Lloegr sydd, yn eu barn nhw, yn ddioddefwr caethwasiaeth neu fasnachu pobl. Er nad yw'r Brifysgol wedi'i rhestru fel awdurdod cyhoeddus perthnasol yn hyn o beth, mae sefydliadau eraill, gan gynnwys cyrff anllywodraethol, hefyd yn cael eu hannog i gyflwyno hysbysiadau pan ddônt ar draws unigolyn a allai fod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern nad yw am fod yn rhan o'r mecanwaith cyfeirio cenedlaethol (NRM). Os ystyrir bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol, ffoniwch '999'
Ceir taflenni ffeithiau a phoster sy'n esbonio'r hyn y mae angen i chi ei wneud os ydych yn meddwl bod unigolyn wedi bod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern:

Caethwasiaeth Fodern - Poster ynghylch y Ddyletswydd i Hysbysu:

Caethwasiaeth Fodern - Taflen Ffeithiau ynghylch y Ddyletswydd i Hysbysu:

**Camau gweithredu pellach ar gyfer 2023/24**

Yn ystod 2023/24, byddwn yn parhau i ddatblygu camau gweithredu i sicrhau na cheir caethwasiaeth a masnachu pobl yn unrhyw ran o'n busnes na'n cadwyni cyflenwi. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys:

- Cydweithio ag awdurdodau eraill sy'n contractio ac asiantaethau perthnasol er mwyn rhannu gwybodaeth am gadwyn gyflenwi Prifysgol Abertawe a monitro unrhyw risgiau neu faterion perthnasol ar draws categorïau.
- Parhau i reoli contractau a chyflenwyr i sicrhau bod disgwyliadau Prifysgol Abertawe o ran ymddygiad cyflenwyr yn cael eu cyfleu ar draws pob lefel haen.
- Adolygu a datblygu'r Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol.
- Monitro a gwella'n barhaus wiriadau diwydrwydd dyladwy ar adeg ymsefydlu cyflenwyr er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ddigonol ei chasglu a chaiff disgwyliadau eu pennu ynghylch safbwynt Prifysgol Abertawe ar gaethwasiaeth fodern.

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ddatblygu dealltwriaeth ac effeithiolrwydd yn y maes hwn ymhellach, â'r nod o wella tryloywder yn ein cadwyni cyflenwi a gweithredu mewn modd cyfrifol tuag at y bobl sy'n gweithio ynddynt. Bydd Prifysgol Abertawe'n parhau i asesu meysydd risg allweddol yn ein portffolio o wariant ac yn datblygu strategaethau i liniaru unrhyw risg bosib.

***Bleddyn Phillips***
***Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor***

***Cymeradwywyd ar 9 Hydref 2023***